Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi cydraddoldeb ac addysg amrywiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31 Mawrth 2023 |
| **Cyfeirnod:** | W23/06HE |
| **At:** | Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a reoleiddir yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb penodol ond mae terfynau amser ar gyfer y camau gweithredu |
| **Manylion cyswllt:** | Jane Johns, Ryan Stokes<br>jane.johns@hefcw.ac.uk<br>ryan.stokes@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i brifysgolion a cholegau a reoleiddir yng Nghymru ar gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch. Mae'r cylchlythyr yn nodi'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru a/neu CCAUC yn disgwyl i brifysgolion a cholegau a reoleiddir eu cymryd.

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost at info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i brifysgolion a cholegau a reoleiddir yng Nghymru ar gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch. Mae'r cylchlythyr yn nodi'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru a/neu CCAUC yn disgwyl i brifysgolion a cholegau a reoleiddir eu cymryd.

2. Mae addysg uwch ddiogel a chynhwysol ac ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cyfrannu at gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig Cymru Gyfartal a Chymru Iach.[1] Mae'r pum dull o weithio yn llywio asesiad effaith polisïau CCAUC.[2] Rydym yn annog sefydliadau i gynnwys ystyriaeth o egwyddor cynaliadwyedd, nodau a dulliau gweithio'r Ddeddf yn eu hasesiadau effaith.

3. Mae'r cylchlythyr hwn yn ystyried deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth berthnasol, polisi diweddar, a datblygiadau ymarfer fel y maent yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru ac CCAUC, ac wrth i'r sector ôl-16 symud tuag at weithredu o fewn y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn). Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (Medi 2022) yn gosod dyletswyddau strategol ar y Comisiwn mewn perthynas â hyrwyddo cyfle cyfartal, a chydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur. Mae amodau dyletswyddau cofrestru ar ddarparwyr yn ymwneud â chefnogi a hyrwyddo lles myfyrwyr a staff.

4. Mae blaengynllunio yn y cylchlythyr hwn wedi'i gyfyngu i flaenoriaethau y gall CCAUC eu datblygu cyn i'r Comisiwn newydd ddod yn weithredol yn 2024. Yn y cyd-destun hwn, mae rhai cyfyngiadau ar allu a chyrhaeddiad CCAUC. Rydym yn ymwybodol y gallai rhai ymrwymiadau gael eu fframio'n fwy priodol a chael mwy o effaith o fewn cyd-destun ôl-16 ac wrth gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn.

5. Dylid darllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC: Mawrth 2022 – Ebrill 2024.

6. Mae'r camau gweithredu a ddisgwylir gan brifysgolion a cholegau a reoleiddir wedi'u nodi isod ac wedi'u crynhoi mewn tabl o'r enw 'Crynodeb o gamau gweithredu ar brifysgolion a cholegau a reoleiddir'.

7. Mae'r cylchlythyr yn ystyried y canlynol:
   - Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru gan Lywodraeth Cymru
   - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 gan Lywodraeth Cymru
   - Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gan Lywodraeth Cymru
   - Datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant CCAUC
   - Datblygiadau polisi llesiant ac iechyd CCAUC, gan gynnwys iechyd meddwl

[1] Rydym yn cydnabod bod y nodau yn gyd-ddibynnol.
[2] Y pum dull o weithio: atal, cydweithredu, cynnwys, integreiddio, a meddwl a gweithredu hirdymor.

## Polisi ac arferion ledled y Deyrnas Unedig

8. Gan fod addysg uwch yng Nghymru yn gweithredu mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol, ac yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig, caiff ei llywio gan ddeddfwriaeth a data addysg uwch y Deyrnas Unedig, er nad yw bob amser yn ddarostyngedig iddynt, yn ogystal ag ymchwil a chanllawiau rhyngwladol. Mae datblygiadau polisi a deddfwriaethol allweddol cyfredol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn cynnwys y canlynol:

   i. Cyflwynwyd Bil Addysg Uwch (Rhyddid i Lefaru) yn Nhŷ'r Cyffredin yn 2021. Mae'r Bil yn ei gamau olaf ar hyn o bryd ac mae gwelliannau ar y gweill i gael eu hystyried.

   ii. Sefydlwyd Tasglu ar Wrthsemitiaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda ffocws ar addysg uwch. Mae cynghorydd annibynnol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar wrth-semitiaeth, yr Arglwydd Mann, yn goruchwylio adroddiad sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2023, ar brofiadau myfyrwyr Iddewig mewn addysg uwch. Mae CCAUC wedi darparu gwybodaeth i lywio'r adroddiad.

   iii. Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Fyfyrwyr ei dogfen Ymgynghoriad ar ddull newydd o reoleiddio aflonyddu a chamymddwyn rhywiol mewn addysg uwch yn Lloegr. Diben rheoleiddio ychwanegol yw gosod *'rhwymedigaethau sylweddol y gellir eu gorfodi ar brifysgolion a cholegau i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol'* (tudalen 8).

   iv. Ers 2016, mae Universities UK wedi cyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau 'Changing the Culture' i ddylanwadu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn addysg uwch y Deyrnas Unedig a'u llywio.

9. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, nid CCAUC, yw rheoleiddiwr cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru.

## Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a CCAUC

10. Themâu allweddol strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yw addysg uwch ddiogel a chynhwysol, ymagweddau prifysgol gyfan, newid diwylliannau, adolygu polisïau ac arferion o safbwynt sy'n cael ei lywio gan anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, pwysigrwydd croestoriadedd, mynd i'r afael â thrais, cam-drin ac aflonyddu o bob math, a gwelliant parhaus. Yn ogystal, mae disgwyliadau CCAUC ar brifysgolion a cholegau a reoleiddir yn cynnwys gwella polisi ac arferion sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth, sicrhau bod polisi ac arferion yn cael eu llywio gan asesu effaith, a rhannu gwybodaeth ac arferion er mwyn sicrhau cymorth cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws addysg uwch i ymgeiswyr, myfyrwyr, staff, a phawb sy'n ymgysylltu ag addysg uwch.

11. Yn y cyd-destun hwn, hoffem weld prifysgolion yng Nghymru yn datgan yn glir eu bod yn sefyll yn erbyn pob math o drais, cam-drin ac aflonyddu mewn addysg uwch, heb ystyried hunaniaeth person.

**Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, Llywodraeth Cymru**
**Ystyriaethau croestoriadedd**

12. Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru gan Lywodraeth Cymru (tudalen 55) yn disgwyl *'bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTC+ gynhwysol i ddysgwyr, myfyrwyr, a staff'*, ac mae'n nodi'r canlyniadau y mae'n disgwyl eu cyflawni.

13. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio gyda phrifysgolion i wneud y canlynol:
    i. 'annog prifysgolion i ystyried materion sy'n ymwneud â chroestoriadedd, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, wrth ystyried sut maent yn cefnogi eu staff a'u myfyrwyr amrywiol.'
    ii. 'sicrhau bod eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn nodi sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys o ran sut mae hyn yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.'

14. Mae ystyriaethau croestoriadedd yn sylfaenol a dylent fod yn sail i ddatblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfeiriadedd rhywiol a rhywedd. Rydym yn cydnabod bod gan CCAUC a'r sector fwy i'w wneud i wella ei waith casglu a dadansoddi data croestoriadol. Rydym yn ymrwymo i wneud cynnydd pellach i gynorthwyo polisïau a chamau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

15. Rydym yn annog prifysgolion yn gryf i ddangos sut y maent yn ystyried materion croestoriadol wrth gefnogi pob ymgeisydd, myfyriwr, aelod o staff ac unigolyn arall ac i sicrhau bod eu cynllunio cydraddoldeb strategol yn nodi camau gweithredu i gefnogi eu poblogaethau amrywiol, gan gynnwys o ran sut mae hyn yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

**Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

16. Mae Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Mai 2022) yn cydnabod mai menywod a phlant yr effeithir arnynt fwyaf gan drais, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon, mae'r cwmpas wedi'i ymestyn i gynnwys aflonyddu ar y stryd ac yn y gweithle.

17. Mae'r strategaeth yn nodi:
    i. 'Gall gweithwyr proffesiynol ym meysydd Addysg, Iechyd, a Thai, ymysg eraill, fod yn amddiffyniad llinell gyntaf pan ddaw at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelu dioddefwyr' (tudalen 16); a

ii. ‘Bydd deall effaith cydraddoldeb trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail groestoriadol yn hanfodol os ydym am fynd i’r afael â’r broblem i bawb yng Nghymru a chydnabod yr effaith gronnol y gall mathau rhyngblethol o anfantais ei chael. Bydd edrych o safbwynt effaith croestoriadedd hefyd yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys anghenion pob un o’r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a chymunedau LHDTC+.’ (tudalen 18)

18. Mae mynd i’r afael â thrais, aflonyddu a chamdriniaeth o bob math, heb ystyried hunaniaeth unigol, yn hanfodol i amgylcheddau gweithio a dysgu cefnogol. Mae’r Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn nodi tair agwedd ar atal a ddylai fod yn sail i addysg uwch ddiogel a chynhwysol:
   - atal sylfaenol: atal trais cyn iddo ddigwydd;
   - atal eilaidd: ymateb i drais i leihau niwed, gwella gwasanaethau ac atal trais pellach; ac
   - atal trydyddol: atal atgwympo a chylchoedd cam-drin rhwng cenedlaethau.

19. Yn ogystal, mae diweddariad Llywodraeth Cymru o’i Rhaglen Lywodraethu (Rhagfyr 2021) yn ymrwymo i *‘Ehangu’r ymgyrchoedd hyfforddi ac ymwybyddiaeth “Gofyn a Gweithredu” a “Paid Cadw’n Dawel”.’*

20. Prosiect UniSAFE – prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd yw’r prosiect UniSAFE, sy’n anelu at gynhyrchu gwell gwybodaeth am drais ar sail rhywedd ac aflonyddu rhywiol mewn sefydliadau sy’n cyflawni ymchwil (RPOs), a throsi’r wybodaeth hon yn offer gweithredol ar gyfer addysg uwch, sefydliadau ymchwil a llunwyr polisi. Bydd y prosiect yn arwain at becyn cymorth gweithredol ac argymhellion i leihau trais ar sail rhywedd ym maes academaidd ac ymchwil Ewrop.

21. Dylai prifysgolion a cholegau sicrhau, wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau cyflawni cydraddoldeb strategol ar sail tystiolaeth a data a’u strategaeth llesiant, iechyd ac iechyd meddwl a chynlluniau gweithredu, eu bod yn cynnwys camau gweithredu i gryfhau dulliau ataliol o fynd i’r afael â thrais, aflonyddu a cham-drin yn eu holl ffurfiau, heb ystyried hunaniaeth ac ar draws pob maes dysgu a gweithio.

22. Disgwyliwn i gamau gweithredu prifysgolion gynnwys cyflwyno hyfforddiant priodol cynhwysfawr ac effeithiol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr. Dylai camau gweithredu pellach gynnwys hyrwyddo gwybodaeth ar adrodd am ddigwyddiadau o’r fath, gan gynnwys sut y bydd staff a myfyrwyr sy’n adrodd am y digwyddiadau hyn yn cael eu cefnogi, ac ymrwymiad i beidio â defnyddio cytundebau peidio â datgelu (NDAs) mewn achosion o gamymddwyn rhywiol. Datganiad prifysgolion Cymru ar y defnydd o NDAs.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Llywodraeth Cymru**

23. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Mehefin 2022) yn nodi bwriadau Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn wrth-hiliol. Mae nodau a chamau gweithredu ar wahân ar gyfer darparwyr addysg bellach ac addysg uwch. Yn ogystal â chamau gweithredu sy'n cynnwys prifysgolion fel partneriaid, mae dau nod addysg uwch penodol:

    i. 'Gall staff a myfyrwyr ddisgwyl i'w profiad o addysg uwch fod yn gadarnhaol, ni waeth beth fo'u cefndir hil ac ethnig' (tudalen 44); a

    ii. 'Gwell defnydd o'r sbardunau sydd ar gael i hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol ym maes addysg uwch' (tudalen 45).

24. Mae ein camau gweithredu allweddol hyd yma sy'n cyfrannu at y nodau hyn wedi'u nodi yn **Atodiad A.** Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud a byddwn yn adeiladu ar y camau cychwynnol hyn i gyflawni'r nodau hirdymor, gan gynnwys gwella cydweithredu a chyfranogiad wrth i ni symud i weithredu mewn systemau ôl-16 o dan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

25. Rhaid i brifysgolion gymryd camau i gyflawni'r camau sy'n ymwneud ag addysg uwch a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, rhaid i sefydliadau:

    i. adolygu polisïau a gweithdrefnau recriwtio presennol o safbwynt gwrth-hiliol erbyn mis Medi 2023;

    ii. monitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys gwahaniaethau cyflog, erbyn mis Medi 2023;

    iii. cyflawni Nod Siarter cydraddoldeb hiliol fel amod ariannu o fewn tair blynedd i ymgorffori polisïau gwrth-hiliaeth ar bob lefel o fewn y sector. Rhaid i sefydliadau ymrwymo i'r siarter erbyn mis Medi 2023.

26. Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC yn disgwyl i brifysgolion gydweithio â myfyrwyr ac undebau, a'u cynnwys fel partneriaid yng nghamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n benodol i addysg uwch.

27. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i brifysgolion gydweithio'n effeithiol ar gamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n cynnwys addysg uwch fel partner lle mae eraill yn arwain ar y camau gweithredu.

28. Wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau recriwtio presennol o safbwynt sy'n ystyried nodwedd warchodedig, fel y mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ei gwneud yn ofynnol, dylai prifysgolion sicrhau eu hunain bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r holl nodweddion gwarchodedig a nodweddion croestoriadol.

29. Yng Nghyfarfod Llawn y Prif Weinidog yn Senedd Cymru ym mis Mawrth 2023, dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, ei fod yn awyddus i weld prifysgolion yn mabwysiadu diffiniad Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocost. Nododd y Prif Weinidog ei bod yn ofynnol i brifysgolion o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus roi sylw i gyfrifoldebau cydraddoldeb a hawliau dynol, ac y byddai

adolygiad Llywodraeth Cymru sydd ar ddod o'r ddyletswydd yn cynnwys ystyried diffiniad Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocost[3].

## Datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant CCAUC

30. Mae **Atodiad A** yn nodi ein camau gweithredu allweddol cychwynnol. Mae ein camau gweithredu wedi'u llywio gan ddata sy'n benodol i'r Deyrnas Unedig a Chymru lle mae ar gael. Rydym yn nodi lle mae camau gweithredu'n cyfrannu'n benodol at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rydym yn llwyr gydnabod bod mwy i'w wneud gan CCAUC, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'r holl ddarparwyr addysg. Rydym yn ymrwymo i gyflawni'r camau gweithredu tymor byr yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac i gydweithio yn y tymor hwy i sicrhau ei amcanion.

31. Mae ein gallu i ddadansoddi data croestoriadol yn datblygu ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi mwy o ddata croestoriadol yn y dyfodol sy'n ystyried llawer o nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys llywio ein cynllunio cydraddoldeb strategol a datblygiadau polisi.

32. Er mwyn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi ymhellach, gwnaethom gyhoeddi W22/28HE: Ymgynghoriad ar fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch. Rydym yn nodi sut yr ydym wedi ystyried ymatebion yn **Atodiad B**. Rydym yn cydnabod bod y meysydd y byddwn yn eu monitro yn fesurau dirprwyol gyda rhai cyfyngiadau. Efallai y byddwn yn eu hehangu wrth i ddata wella. Mae'r meysydd y byddwn yn eu mesur wedi'u nodi yn **Atodiad C**. Byddwn yn cyhoeddi'r data'n flynyddol ar ein gwefan ar lefel Cymru (Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth). Mae rhai data'n fach, ac rydym yn derbyn eu bod yn arwyddocaol ynddynt eu hunain. Mae dadansoddiad byr o'r data ar gael ar ein gwefan.

## Llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a'n datblygiadau polisi

33. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi diwygio ei strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar adeg ysgrifennu hwn. Mae'r papurau ar gyfer yr adroddiad 'Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru': 'Gweithredu trawslywodraethol cydgysylltiedig' yn cadarnhau'r canlynol:

    'Dywedodd rhanddeiliaid fod y gwaith o adolygu ac ailwampio'r strategaeth yn gyfle i fynd i'r afael ag anghenion ystod ehangach o gymunedau sy'n profi gwahaniaethu a/neu anfantais, gan gynnwys, er enghraifft, pobl hŷn, Sipsiwn a Theithwyr, a phobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig. Mae'n rhoi cyfle hefyd i ddysgu o'r pandemig COVID-19, yn enwedig yr anghydraddoldebau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol presennol hirsefydlog ac sy'n gwaethygu sydd wedi arwain at iechyd meddwl gwaeth.' Roedd rhai pryderon bod 'angen gwneud mwy i ddwyn ynghyd y gwahanol gynlluniau gweithredu a

[3] Am ragor o wybodaeth darllenwch y drafodaeth yng Nghofnod y Trafodion.
Y Cyfarfod Llawn 28/03/2023 - Senedd Cymru

pholisïau sy’n ymwneud ag iechyd meddwl, anghydraddoldebau iechyd, ac â grwpiau a chymunedau penodol a allai brofi gwahaniaethu neu anfantais.’

34. Ym mis Gorffennaf 2022, agorodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ymchwiliad i [Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch](). Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad a’r dystiolaeth wedi’u cyhoeddi. Cyhoeddir yr adroddiad yng ngwanwyn 2023.

35. Mae ein camau gweithredu allweddol i gynnal llesiant ac iechyd ac iechyd meddwl yn cynnwys y canlynol:

    i. parhau i ariannu a monitro strategaethau llesiant ac iechyd prifysgolion, cynlluniau gweithredu a strategaethau mwy diogel ar gyfer atal hunanladdiad;

    ii. parhau i ariannu rhai prosiectau llesiant ac iechyd drwy’r Gronfa Buddsoddi Strategol;

    iii. parhau i gefnogi [Student Space]();

    iv. rhannu arferion ar werthuso effeithiol a darpariaeth llesiant ac iechyd yng Nghymru;

    v. adolygu ein datganiad sefyllfa ar lesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl.

36. Mae CCAUC yn disgwyl y dylai sefydliadau wneud y canlynol:

    i. gwella casglu a dadansoddi data er mwyn dangos tystiolaeth o arferion effeithiol a chanolbwyntio adnoddau;

    ii. cydweithio i rannu arferion a gwneud y mwyaf o arian cyhoeddus ar:
        - ymgysylltu’n effeithiol â byrddau iechyd a sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys defnyddio diffiniadau y cytunwyd arnynt o iechyd meddwl i wella’r ffordd y caiff anghenion cymorth iechyd meddwl myfyrwyr eu cyfathrebu;
        - cefnogi llesiant ac iechyd myfyrwyr Cymraeg eu hiaith;
        - gwreiddio ymyriadau cynnar a dulliau ataliol ar gyfer staff a myfyrwyr megis ond heb fod yn gyfyngedig i bresgripsiynu cymdeithasol;

    iii. parhau i asesu effaith eu polisïau a’u cynlluniau i ystyried llesiant ac iechyd staff a myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, ac effeithiau ar bobl a allai wynebu gwahaniaethu neu anfantais a/neu oherwydd nodweddion gwarchodedig.

**Crynodeb o gamau gweithredu ar gyfer pob prifysgol, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â cholegau a reoleiddir**

37. Dylai prifysgolion a cholegau a reoleiddir wneud y canlynol:

| **Camau gweithredu**<br>**a chyfeiriad paragraff yn y cylchlythyr hwn** | **Pryd** | **Y camau gweithredu y disgwylir i Lywodraeth Cymru a CCAUC eu cymryd** |
|---|---|---|
| Ystyried materion croestoriadedd, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, wrth ystyried sut y maent yn cefnogi eu poblogaethau amrywiol o staff a myfyrwyr. | Tymor canolig[4] | Llywodraeth Cymru |
| Sicrhau bod eu cynlluniau cydraddoldeb strategol (CCS) yn nodi sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys sut mae hyn yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. | Tymor canolig | Llywodraeth Cymru |
| Cymryd i ystyriaeth groestoriadedd wrth gefnogi'r holl staff, myfyrwyr, ac ymwelwyr â'r sefydliad. | Wrth ddatblygu ac adrodd ar gynllunio cydraddoldeb strategol | CCAUC |
| Gwella gwaith casglu a dadansoddi data er mwyn ystyried croestoriadedd a llywio polisi a chamau gweithredu. | Adrodd ar gynnydd trwy brosesau cynllunio cydraddoldeb strategol | CCAUC |
| Dylai prifysgolion a cholegau sicrhau, wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau cyflawni cydraddoldeb strategol a'u strategaeth llesiant, iechyd ac iechyd meddwl a chynllunio gweithredu, eu bod yn cynnwys camau gweithredu i gryfhau dulliau ataliol o fynd i'r afael â thrais, aflonyddu a cham-drin staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, yn eu holl ffurfiau, waeth beth fo'u hunaniaeth. | Tystiolaeth o gamau gweithredu trwy gynllunio cydraddoldeb strategol a strategaethau llesiant ac iechyd a chynllunio gweithredu | CCAUC |
| Dylai prifysgolion sicrhau bod eu rhaglenni hyfforddi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cyflwyno'n gynhwysfawr ac yn effeithiol. | Yn parhau | CCAUC |

[4] Yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+, mae tymor canolig yn golygu o fewn oes y Senedd bresennol.

| **Camau gweithredu<br>a chyfeiriad paragraff yn y cylchlythyr hwn** | **Pryd** | **Y camau gweithredu y disgwylir i Lywodraeth Cymru a CCAUC eu cymryd** |
|---|---|---|
| Rhaid i brifysgolion gymryd camau i gyflawni'r camau sy'n ymwneud ag addysg uwch a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, rhaid i sefydliadau:<br>iv. adolygu polisïau a gweithdrefnau recriwtio presennol o safbwynt gwrth-hiliol erbyn mis Medi 2023;<br>v. monitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys gwahaniaethau cyflog, erbyn mis Medi 2023;<br>vi. cyflawni Nod Siarter cydraddoldeb hiliol fel amod ariannu o fewn tair blynedd i ymgorffori polisïau gwrth-hiliaeth ar bob lefel o fewn y sector. Rhaid i sefydliadau ymrwymo i'r siarter erbyn mis Medi 2023. | Medi 2023 | Llywodraeth Cymru |
| Rhaid i brifysgolion gydweithio â myfyrwyr ac undebau, a'u cynnwys fel partneriaid yng nghamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n benodol i addysg uwch. | Medi 2023 ac yn parhau | CCAUC |
| Dylai prifysgolion wneud y canlynol:<br>i. gwella casglu a dadansoddi data er mwyn dangos tystiolaeth o arferion effeithiol a chanolbwyntio adnoddau;<br>ii. cydweithio i rannu arferion ar:<br>• ymgysylltu'n effeithiol â byrddau iechyd a sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys defnyddio diffiniadau y cytunwyd arnynt o iechyd meddwl i wella'r ffordd y caiff anghenion cymorth iechyd meddwl myfyrwyr eu cyfathrebu;<br>• cefnogi llesiant ac iechyd myfyrwyr Cymraeg eu hiaith;<br>• gwreiddio ymyriadau cynnar a dulliau ataliol ar gyfer staff a myfyrwyr megis ond heb fod yn gyfyngedig i bresgripsiynu cymdeithasol; | O 2022/23 ac yn barhaus fel rhan o gynllunio cydraddoldeb strategol a strategaeth a chynllunio llesiant ac iechyd | CCAUC |

| Camau gweithredu<br>a chyfeiriad paragraff yn y cylchlythyr hwn | Pryd | Y camau gweithredu y disgwylir i Lywodraeth Cymru a CCAUC eu cymryd |
|---|---|---|
| iii. parhau i asesu effaith eu polisïau a'u cynlluniau i ystyried llesiant ac iechyd staff a myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, ac effeithiau ar bobl a allai wynebu gwahaniaethu neu anfantais a/neu oherwydd nodweddion gwarchodedig. | | |

### Gwahoddiad i ymgysylltu â ni ar gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch

38. Wrth i ni symud tuag at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dod yn weithredol yn 2024, mae CCAUC yn ymgymryd â'i rôl i ariannu, rheoleiddio a dylanwadu gyda golwg ar sut efallai y bydd angen ailedrych ar bolisi maes o law yng nghyd-destun y polisi ôl-16 ehangach yn y sector trydyddol. Rydym yn cydnabod y bydd cyflawni'r canlyniadau a amlinellir yn y cylchlythyr hwn yn mynd y tu hwnt i oes CCAUC, ond mae angen gweithredu ar eu cyfer yn awr. Rydym yn parhau i groesawu cyngor ar bob agwedd ar ein datblygiadau polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gellir cysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost ar glawr y cylchlythyr ac isod, neu drwy info@hefcw.ac.uk.

### Gwybodaeth bellach

39. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â jane.johns@hefcw.ac.uk, ryan.stokes@hefcw.ac.uk.

### Asesu effaith ein polisïau

40. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio ar gyfer yr asesiad o effaith ar ein prosesau cynllunio cydraddoldeb strategol ac ar feysydd polisi unigol y cyfeirir atynt yn y cylchlythyr hwn. Mae ein hasesiad effaith yn broses barhaus i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried effaith polisïau ar yr iaith Gymraeg, ac ar y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried yr effeithiau posibl ar y gwaith i gyflawni'r nodau a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein hamcanion llesiant. Cysylltwch â CCAUC gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost yn y cylchlythyr hwn i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru**
**Themâu, nodau a chamau gweithredu ar gyfer CCAUC ac addysg uwch**
**Mapio camau gweithredu a monitro cynnydd**

Mae cynnydd CCAUC yn erbyn nodau a chamau gweithredu'r cynllun gweithredu wedi'u nodi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Camau gweithredu wedi'u cwblhau | ✓ |
| Camau ar y gweill | ➢ |

Mae adran un isod yn nodi lle bydd CCAUC a phartneriaid yn arwain. Rydym yn cydnabod bod meysydd eraill lle mae CCAUC ac addysg uwch yn bartneriaid, ond mae eraill yn gyfrifol am arwain y ddarpariaeth. Rydym yn ymrwymo i weithio fel partneriaid i gyfrannu at gyflawni'r camau hyn.

## Adran Un

Yn yr adran addysg, mewn perthynas ag addysg uwch, o dudalen 39, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei blaenoriaethau y byddwn yn eu hystyried wrth fonitro:

1. disgwyl i bob sefydliad addysg gofnodi'n effeithiol pob digwyddiad o gam-drin hiliol, gwahaniaethu a/neu fwlio, a gweithio gyda dysgwyr a staff i gyd-ddylunio ffyrdd mwy effeithiol o ymateb i'r materion a godir. Rydym hefyd yn disgwyl i bob sefydliad gyhoeddi gwybodaeth am y cynnydd a wneir wrth ddatblygu dulliau o'r fath, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddysgwyr a staff, boed hynny'n ddeilliannau dysgwyr a/neu lefelau cyflog staff. Dylai'r canlyniadau fod ar gael mewn ieithoedd a ffyrdd sy'n ystyrlon i bobl o leiafrifoedd ethnig.
2. gwella cyflawnder a defnydd data ar ethnigrwydd mewn addysg. Mae angen inni ddefnyddio data sydd ar gael ar hyn o bryd yn fwy systematig. Mae angen inni hefyd archwilio cyfleoedd i gysylltu â setiau data eraill, megis y rheiny ar iechyd a chyflogaeth, er mwyn datblygu dealltwriaeth lawnach o anghydraddoldebau. Byddwn hefyd yn creu systemau mwy cadarn o gasglu data ac adrodd.
3. disgwyl i bob sefydliad addysg uwch gyflawni Nod Siarter cydraddoldeb hiliol o fewn tair blynedd, fel amod ariannu.

**Adran Un: camau gweithredu y bydd CCAUC yn eu harwain**

| **Thema: Addysg Uwch** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod: Gall staff a myfyrwyr ddisgwyl i'w profiad o addysg uwch fod yn gadarnhaol beth bynnag fo'u cefndir hiliol ac ethnig. (Tudalen 44)** | | | | | | |
| **Camau gweithredu** | **Allbynnau** | **Effaith** | **Dyddiad Llywodraeth Cymru i'w gyflawni erbyn** | **Camau gweithredu CCAUC/AU** | **Cynnydd** | **Dyddiad cwblhau camau gweithredu CCAUC/AU / cynnydd hyd yma** |
| Sefydlu rhwydwaith gwrth-hiliaeth ar draws y sector addysg uwch. | Rhannu arferion da ar draws sefydliadau addysg uwch wrth fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol a hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol. | Cynnydd cyflymach a mwy cynaliadwy tuag at wella profiad staff a myfyrwyr. | Erbyn Mawrth 2023. | Rhaglen wella ar gyfer hil, mynediad a llwyddiant Cymru gyfan CCAUC a arweinir gan Advance HE. CCAUC yn ariannu cyfres rhwydwaith cydraddoldeb hiliol Advance HE drwy gyfrwng grant. | ✓ Rhaglen gwella hil wedi'i chwblhau.<br>✓ Cadarnhawyd y contract yn 2022. Cyfres seminarau rhwydwaith wedi dechrau ym mis Chwefror 2023. | ✓ Camau wedi'u cwblhau. Sefydlwyd y rhwydwaith ym mis Chwefror 2023. |
| Cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb hiliol blynyddol a mesurau perfformiad ar | Adroddiad a mesurau yn cael eu cyhoeddi. | Mwy o atebolrwydd i sefydliadau addysg uwch o ran gwrth-hiliaeth. Ymateb | Erbyn Mawrth 2023. Adroddiad blynyddol o | Dadansoddi data a chyhoeddi adroddiad. | ➢ Adroddiad wedi'i ddrafftio yn dilyn ymgynghoriad. | Ar y trywydd iawn – adroddiad data cydraddoldeb hiliol blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2023 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gyfer y sector, gan gynnwys canlyniadau i fyfyrwyr a staff. | | mwy penodol i faterion sy'n effeithio ar staff a myfyrwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys bylchau cyrhaeddiad ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd ethnig gwahanol. | 2023 ymlaen. | | | ac yn flynyddol wedi hynny. |

| **Thema: Addysg Uwch** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod: Gwell defnydd o'r ysgogiadau sydd ar gael i hyrwyddo diwylliant gwrth-hiliol mewn addysg uwch (tudalen 45).** | | | | | | |
| Camau gweithredu | Allbynnau | Effaith | Dyddiad i'w gyflawni erbyn | Camau gweithredu CCAUC/AU | Cynnydd | Dyddiad cwblhau camau gweithredu CCAUC/AU / cynnydd hyd yma |
| Ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddisgwyl i bob sefydliad addysg uwch adolygu polisïau a gweithdrefnau recriwtio presennol | Bod uwch-arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd wrth-hiliol ar draws y sefydliad. | Mwy o gynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig mewn swyddi uwch o fewn addysg uwch. | Erbyn Medi 2023. | Gwaith monitro cydraddoldeb hiliol CCAUC 2022/23 i gynnwys disgwyliad i fonitro polisïau o safbwynt gwrth-hiliol. | ➢ Cyhoeddi canllawiau monitro cydraddoldeb hiliol 2022/23. | Ar y trywydd iawn – canllawiau i'w cyhoeddi ym mis Mawrth 2023. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| o safbwynt gwrth-hiliol. | | | | | | |
| Ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddisgwyl i sefydliadau addysg uwch fonitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys gwahaniaethau cyflog. | Cyhoeddi data ar gyflogau staff addysg uwch ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig. | Mwy o dryloywder mewn data cyflog i gefnogi mwy o gydraddoldeb cyflog i staff waeth beth fo'u cefndir hiliol. | Erbyn Medi 2023. | Canllawiau monitro CCAUC 2022/23 i ddisgwyl i sefydliadau adrodd ar fonitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys gwahaniaethau cyflog. | ➢ Cyhoeddi canllawiau monitro cydraddoldeb hiliol 2022/23, gan gynnwys camau gweithredu ar anghydraddoldeb cyflog, ac ailgyhoeddi canllawiau cyflog cyfartal. | Ar y trywydd iawn – cyhoeddi canllawiau ym mis Mawrth 2023. |
| Disgwyl i bob sefydliad addysg uwch gyflawni Nod Siarter cydraddoldeb hiliol fel amod ariannu o fewn tair blynedd i ymgorffori polisïau gwrth-hiliaeth ar bob lefel o fewn y sector. | Pob sefydliad addysg uwch i ennill Nod Siarter. | Ymrwymiad sefydliad cyfan, agored i ymagwedd wrth-hiliol a fydd o fudd i bob myfyriwr ac aelod o staff. | Ymrwymiad i'r Nod Siarter erbyn Medi 2023. | Mae CCAUC wedi nodi disgwyliadau ar gyfer cyflawni siarter cydraddoldeb hiliol yng nghylchlythyr W22/05HE a bydd yn ailddatgan hyn yng nghanllawiau ariannu 2022/23. | ✓ Mae canllawiau ariannu 2021/22 a 2022/23 yn ailddatgan disgwyliadau'r Nod Siarter erbyn 2025. | Ar y trywydd iawn – wedi cyhoeddi ein disgwyliadau siarter ym mis Mawrth 2022 a Gorffennaf 2022.<br>Y Nod Siarter i'w gyflawni erbyn 2025. |

## Ymatebion i ymgynghoriad CCAUC ar ddata monitro cydraddoldeb hiliol

1. Mae'r atodiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad ar fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch (W22/28HE) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 ar ein dull arfaethedig o fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch. Rydym wedi ystyried yr ymatebion pryd y gallwn, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol. Cawsom wyth ymateb.

### Dull monitro a data

2. Mewn ymateb i'r cwestiynau ar y dull cyffredinol o fonitro a setiau data:

    - cytunodd pedwar sefydliad â'r dull cyffredinol o fonitro heb unrhyw sylwadau pellach.
    - cytunodd pedwar sefydliad mewn egwyddor i'n dull o fonitro a darparwyd ychydig awgrymiadau ychwanegol, gan gynnwys ar ddata myfyrwyr o ran eu defnydd ar lefel sefydliadol, yn ogystal â chytuno y dylid cymryd bylchau cyrhaeddiad mewn dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf a 2:1 i ystyriaeth.
    - cytunodd pedwar sefydliad arall â'r setiau data arfaethedig i'w defnyddio yn y monitro.
    - awgrymodd un sefydliad y gallai monitro canlyniadau gradd golli "profiad byw" myfyrwyr o fewn y grwpiau hyn, lle nad yw canlyniad llwyddiannus o reidrwydd yn gysylltiedig â chyflawniad 2:1 neu radd dosbarth cyntaf i lawer ohonynt.
    - anghytunodd un sefydliad â'n dull o safbwynt ei hymwneud â defnyddio data UCAS i wneud cymhariaeth rhwng data ymgeisio a chofrestru gan na fyddai'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r amrywiaeth o fodelau a ddefnyddir yn y sector i recriwtio myfyrwyr.
    - cododd tri sefydliad arall bryderon na fyddai'r defnydd o ddata UCAS yn effeithiol mewn sefydliadau sy'n defnyddio nifer o wahanol ddulliau recriwtio.

### Data myfyrwyr a staff

3. Gwnaeth pob sefydliad awgrymiadau yn ymwneud â data myfyrwyr a staff, a oedd yn cynnwys:

    - defnyddio dull croestoriadol o fonitro sy'n cydnabod hunaniaethau lluosog myfyrwyr a staff, gan gynnwys defnyddio categorïau ehangu mynediad neu ystod o ddynodwyr cymdeithasol i archwilio unrhyw groestoriadau rhwng grwpiau.
    - i fyfyrwyr, dadgyfuno'r categorïau lleiafrifoedd ethnig gan fod gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau ethnig yn cael eu cuddio gan gydgasglu.
    - cynnwys yr holl ddosbarthiadau gradd i raddedigion.
    - ystyried y llwyddiant hwnnw mewn nifer o ddangosyddion eraill nad ydynt efallai yn gysylltiedig â chyflawniad dosbarthiad gradd.
    - esbonio'r rhesymeg dros ddata cyfraddau cynnig sy'n ymwneud yn bennaf ag ymgeiswyr 18 oed ac ystyried sut i gasglu data ymgeiswyr ar gyfer myfyrwyr 18–21 oed ac ymgeiswyr hŷn.
    - cynnwys dangosydd ychwanegol o gadw staff.

- defnyddio data boddhad myfyrwyr.

**Staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol**

4. Cytunodd pum sefydliad i'n dull o wahanu staff academaidd ac anacademaidd a'u grwpio yn ôl gradd staff. Rhoddodd tri sefydliad adborth ychwanegol ar hyn yn ogystal â gwneud y canlynol:

   - nodi y gallai cynnig y Swyddfa Fyfyrwyr i beidio â chasglu data staff anacademaidd yn y dyfodol olygu na fydd modd defnyddio data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) mewn unrhyw ffordd ystyrlon.
   - awgrymu bod grwpiau staff ychwanegol yn dangos gwahaniaethau ar ben isaf y strwythur graddio.
   - gofyn am sylwadau ysgrifenedig ychwanegol am y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau nodedig.
   - ystyried y byddai profiadau bywyd gwaith o fewn prifysgolion yn amrywio yn ôl yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran eu hamgylchiadau personol, gan gynnwys tai a llety, a'u gallu i ymateb i'r argyfwng costau byw presennol. Gall trefniadau byw hefyd effeithio ar allu cydweithwyr i fynd ar drywydd gweithio hybrid a chyflwyno gwahaniaeth o ran mynediad at fuddion llesiant.

**Y Gymraeg**

5. Nid oedd saith sefydliad yn rhagweld unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Nodwyd gan un sefydliad risgiau o ran materion datgelu data, o ystyried y niferoedd bach o staff o blith myfyrwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a staff â sgiliau Cymraeg.

## Monitro data cydraddoldeb hiliol

Ymgynghorodd CCAUC ar y meysydd monitro drwy gylchlythyr W22/28HE: Ymgynghoriad ar fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch. Gwnaethom gymryd adborth o'r ymgynghoriad i ystyriaeth a byddwn yn cyhoeddi data ar lefel sector staff a myfyrwyr Cymru gyfan bob blwyddyn fel a ganlyn:

i. Ceisiadau – Nifer, cyfran, newid canrannol blynyddol mewn nifer a newid pwynt canran blynyddol yn y gyfran o geisiadau UCAS i gyrsiau israddedig amser llawn mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill.

ii. Ymgeiswyr – Nifer, cyfran, newid canrannol blynyddol mewn nifer a newid pwynt canran blynyddol yn y gyfran o ymgeiswyr UCAS sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig i gyrsiau israddedig amser llawn mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill.

iii. Cyfradd gynnig – Y bwlch anesboniadwy rhwng y gyfradd gynnig ar gyfer ymgeiswyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig i gyrsiau israddedig ac ar gyfer ymgeiswyr UCAS amser llawn o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill.

iv. Ymgeiswyr wedi'u lleoli – Nifer, cyfran, newid canrannol blynyddol mewn nifer a newid pwynt canran blynyddol yn y gyfran o ymgeiswyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig a leolwyd gan UCAS i gyrsiau israddedig amser llawn mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill.

v. Dechreuwyr – Nifer, cyfran, newid canrannol blynyddol mewn nifer a newid pwynt canran blynyddol yn y gyfran o ddechreuwyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig ar gyrsiau israddedig amser llawn a rhan-amser mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill.

vi. Cadw – Y bwlch anesboniadwy rhwng cyfran y dechreuwyr o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill sy'n bresennol mewn addysg uwch gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru:

    a) un flwyddyn ar ôl blwyddyn mynediad ar gyfer israddedigion amser llawn sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig; a

    b) dwy flynedd ar ôl blwyddyn mynediad ar gyfer dechreuwyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig.

vii. Deilliannau gradd – Y bwlch anesboniadwy mewn deilliannau gradd rhwng myfyrwyr o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig sy'n astudio'n amser llawn a/neu'n rhan-amser – pob dosbarthiad o'r cyntaf i'r di-ddosbarth.

viii. Staff – Nifer, cyfran, newid canrannol blynyddol mewn nifer a newid pwynt canran blynyddol yn y gyfran o staff o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill – contractau academaidd nad ydynt yn annodweddiadol, academaidd annodweddiadol, ac anacademaidd.

ix. Telerau cyflogaeth staff – Y bwlch anesboniadwy rhwng cyfran y staff o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill ar delerau cyflogaeth parhaol – academaidd, anacademaidd.

x. Gradd staff – Y bwlch anesboniadwy rhwng cyfran y staff o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill ym mhob grŵp gradd – academaidd nad ydynt yn annodweddiadol, academaidd annodweddiadol, anacademaidd.

xi. Llywodraethwyr – Nifer a chyfran y llywodraethwyr o gefndiroedd Asiaidd, du, cymysg, gwyn ac ethnig eraill.